

Andrew Slade – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp
Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth
Cymru

01 Hydref 2019

Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Medi 2019 mewn ymateb i gais y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'i waith ar Gymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau. Nodwn o'r ohebiaeth i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfleuster masnachol ym mis Mawrth 2018 gwerth £3.5 miliwn i Dawnus Group Limited, a hynny fel rhan o becyn cyffredinol gwerth £7 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a banc y busnes, yn ychwanegol at gyfraniad cyfranddalwyr a chymorth cyllid gan gwmni cyllido datblygu eiddo arbenigol.

Mae eich llythyr yn nodi bod y benthyciad wedi'i seilio ar gynllun credadwy i ddatrys problemau'r busnes, a ddilyswyd gan ddiwydrwydd dyladwy allanol a mewnol. Yng ngoleuni hyn, hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o fanylion ar sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn dilyn hynt y cynllun yn ystod y cyfnod rhwng cytuno ar y benthyciad a'r cwmni yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

Gofynnodd ein llythyr hefyd am eglurhad ar y cyfathrebu rhwng adrannau Llywodraeth Cymru ac â chyrrff cyhoeddus eraill mewn perthynas â darparu cymorth benthyciad. Gofynnwyd yn benodol a oedd unrhyw ddeialog rhwng



adrannau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyfywedd Dawnus yng nghydestun ei gyfraniad at brosiectau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn arbennig prosiectau o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ym Mhowys. Deilliodd y cwestiynau hyn o'n pryderon ynghylch cyfathrebu rhwng adrannau tua'r adeg pryd y cytunwyd ar y benthyciad ac yng nghydestun yr anawsterau ariannol cynharach a arweiniodd ato (h.y. ym mis Mawrth 2018). Canolbwyntiodd eich ymateb ar gyfathrebu ar yr adeg pryd yr aeth Dawnus i ddwylo'r gweinyddwyr. Byddem yn croesawu cael eglurhad pellach i ymdrin â'n pryderon.

Mewn perthynas ag Atodiad 1, roedd y Pwyllgor yn poeni am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn 2018–19 yn GRH Food Company gan ei fod, o ystyried ei fod mor ddiweddar, yn codi cwestiwn am y trefniadau diwydrwydd dyladwy cysylltiedig a phryd yn union yn 2018–19 y cafodd y taliad ei gymeradwyo ac/neu ei wneud. Byddem yn croesawu cael manylion pellach yn hyn o beth. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r sylw yn y cyfryngau a nododd i Lywodraeth Cymru ddweud ei bod wedi rhoi grant i'r cwmni yn 2017 fel y gallai symud i adeilad newydd flwyddyn yn ddiweddarach. Rydym yn cymryd y gallai hyn gyfrif am y gwahaniaeth rhwng dyddiad y cynnig gwreiddiol a'r diwydrwydd dyladwy cysylltiedig a'r taliad ei hun, gyda'ch amserlen yn adlewyrchu dyddiadau'r taliadau, ond byddem yn croesawu cael cadarnhad o hynny.

Byddem yn croesawu cael manylion ac eglurhad tebyg mewn perthynas â Jistcourt, yn enwedig o ran a gafodd y cymorth ariannol ei gymeradwyo yn gymharol ddiweddar (ers dechrau 2018–19). Byddai hefyd yn ddefnyddiol cadarnhau i ba raddau yr oedd y contractau cyfredol, a'r gwaith yn y dyfodol y bwriadwyd i'r cyfalaf cyfredol ei gefnogi, yn cynnwys prosiectau a ariannwyd yn gyhoeddus a pha rôl a chwaraeodd ym mhroses benderfynu Llywodraeth Cymru. Byddem hefyd yn croesawu cael cadarnhad o unrhyw gyfathrebu perthnasol rhwng adrannau Llywodraeth Cymru neu â chyrff cyhoeddus eraill ynghylch y gefnogaeth a ddarparwyd yng nghydestun unrhyw brosiectau o'r fath.

Ym mhob achos lle mae Llywodraeth Cymru wedi nodi dyled heb ei chlirio, byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad ar ba sail y mae dyled yn cael ei hawlio. Er enghraifft, pa un ai ar ffurff benthyciad oedd y cymorth ariannol a ddarparwyd ynteu cyllid busnes ad-daladwy y disgwylid iddo gael ei ad-dalu maes o law ac, os felly, dros ba gyfnod. Neu a oedd yn gymorth grant union (heb fod yn ad-



daladwy), ond bod yr hawliad am y ddyled yn seiliedig ar delerau ac amodau'r grant.

O ran Atodiad 2 a phwynt 4 mewn perthynas â'r gwrthdaro buddiannau honedig, a allwch gadarnhau a wnaeth y Banc Datblygu unrhyw beth mwy na derbyn sicrwydd ysgrifenedig byr, er enghraifft trwy gael unrhyw dystiolaeth ddogfennol ategol a'i hadolygu?

Bydd y Pwyllgor yn adrodd ar y dystiolaeth a ddaeth i law yn yr ymchwiliad hwn maes o law ac edrychaf ymlaen at gael eich ymateb, a fydd yn llywio ein trafodaethau terfynol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Nick Ramsay". The signature is written in a cursive style with a long horizontal flourish at the end.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

